Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

ar gyfer Twf a Swyddi



## Adroddiad Blynyddol 2015




HEATH PARK WAY

# Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

ar gyfer Twf a Swyddi

Adroddiad Blynyddol 2015

## Cynnwys


**1. Rhagair y Gweinidog** **4**

**2. Cyflawni'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru** **6**

2.1 Y cefndir 6
2.2 Cynnydd yn erbyn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 7
2.3 Edrych ymlaen 9
2.4 Crynodeb 10

**3. Sicrhau canlyniadau i Gymru** **11**

**Uchafbwyntiau Sectoraidd**
3.1 Datblygu Economaidd 12
3.2 Trafnidiaeth 14
3.3 Yr Amgylchedd 16
3.4 Ynni 18
3.5 Tai 20
3.6 Adfywio 22
3.7 Addysg 24
3.8 Iechyd 26

Atodiad Llif o Brosiectau Arfaethedig - Diweddariad Mehefin 2015 (cyhoeddir ar wahân)

# 1. Rhagair y Gweinidog

Ers ei lansio yn 2012, mae'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIP) wedi gosod cyfeiriad clir ar gyfer buddsoddi cyfalaf yng Nghymru er mwyn cefnogi twf a swyddi. Wrth inni fynd ati i adrodd ar gynnydd, daw'n amlwg bod ein dull gweithredu'n llwyddo. Drwy ein ffocws a'n hymrwymiad, rydyn ni wedi codi lefelau buddsoddiad er gwaethaf cyni cyllidol a'r dirwasgiad, gan dargedu'r buddsoddiad at seilwaith sy'n helpu i gynyddu a chynnal twf a swyddi.

Mae Llywodraeth y DU wedi gorfodi heriau ariannol digynsail ar Gymru dros y blynyddoedd diwethaf, gyda chyllidebau cyfalaf wedi eu torri o fwy na 30% mewn termau real ers 2009-10. Roedd y cynlluniau cyllidebol a gyhoeddwyd gennym ar gyfer y cyfnod hwn yn adlewyrchu darlun heriol o gyllidebau cyfalaf adrannol llai, gyda phob arwydd yn awgrymu bod mwy o doriadau i ddod.

Fodd bynnag, nid ydym wedi gadael i hyn ffrwyno ein huchelgais. Hyd yn hyn, mae £1.2 biliwn o gyllid, uwchlaw cyllidebau adrannol craidd, wedi cael ei dargedu'n benodol at brosiectau sy'n cefnogi blaenoriaethau'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ac yn cynnig buddion gwirioneddol i bobl ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau fel: rhaglen y Grant Tai Cymdeithasol lle mae cyllid o fwy na £78 miliwn eisoes wedi cael ei fuddsoddi i gefnogi tai fforddiadwy yng Nghymru; £75 miliwn tuag at raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i greu amgylcheddau dysgu a fydd yn cefnogi canlyniadau addysgol gwell i'n pobl ifanc; £153 miliwn i wella seilwaith iechyd; ac oddeutu £50 miliwn ar gyfer rhaglenni rheoli perygl llifogydd a pherygl i arfordiroedd.

Roedd y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn dangos ein hymrwymiad i wneud y gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi seilwaith yng Nghymru ac adeiladu ar gronfeydd Llywodraeth Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi rhoi gwerth tua hanner biliwn o gynlluniau cyllid arloesol ar waith, ac rwyf wedi cyhoeddi llif o brosiectau arfaethedig â gwerth cyfalaf o £1.9 biliwn pellach a fydd yn sicrhau seilwaith economaidd a chymdeithasol hanfodol ledled Cymru. Mae'r cynlluniau cyllid arloesol presennol wedi helpu i ddarparu tai cymdeithasol a fforddiadwy, sbarduno rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a chynnig buddsoddiad angenrheidiol yn ein priffyrdd, drwy'r Grant Cyllid Tai a'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol.

Yn fy nghyhoeddiadau y llynedd, gwnaed ymrwymiadau i lif o gynlluniau Dosbarthu Di-elw arfaethedig , yn cynnwys datblygu cyfleusterau gofal canser arbenigol a fydd yn gwella gwaith Ymddiriedolaeth GIG Felindre, cwblhau'r gwaith o ddeuoli'r A465, a chreu amgylchedd dysgu newydd fel rhan o'r cylch buddsoddi newydd yn rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Yn ogystal, rydym yn datblygu cynlluniau cyllid arloesol i fynd i'r afael â rheoli perygl llifogydd a pherygl i arfordiroedd, ac ymestyn y ddarpariaeth o dai cymdeithasol a fforddiadwy drwy'r Grant Cyllid Tai. Ar ben hyn, bellach mae gennym y cyfleuster benthyg £500 miliwn drwy Ddeddf Cymru 2014, ac rwyf wedi ymrwymo i ariannu seilwaith.

Mae cyllid Ewropeaidd eisoes wedi cefnogi prosiectau ledled Cymru ac mae'n helpu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i gymunedau. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch sut gallai Cronfa Gymdeithasol Ewrop a phecyn buddsoddi'r Llywydd Juncker o fwy na €300bn (Cronfa Buddsoddi Strategol Ewrop) weithio er budd Cymru.

Mae cyhoeddiadau diweddar Llywodraeth newydd y DU yn awgrymu y bydd y cyfyngiadau ariannol yn parhau. Mae'n bwysicach nag erioed i ganolbwyntio ar symud adnoddau tuag at gyflawni'r blaenoriaethau yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Rydym yn parhau i fod yn llwyr ymrwymedig dwf a swyddi a byddaf yn parhau i ymchwilio i gyfleoedd i sicrhau mwy o gyllid i Gymru. Fel rhan o hyn, byddaf yn chwarae fy rhan drwy ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer Bargen Dinas i Gaerdydd ac yn parhau i bwyso am fuddsoddiadau mewn prosiectau cenedlaethol eu harwyddocâd fel Morlyn Llanw Bae Abertawe, rhaglen Ynys Ynni Môn a Metro De Cymru.

Mae'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru wedi bod ar waith ers tair blynedd bellach ac mae canlyniadau'r buddsoddiadau hynny i'w gweld o ran buddion economaidd a chymdeithasol. Rwyf wedi gweld nifer o'r buddion hyn fy hun, gan gynnwys yn ystod fy nhaith cyllideb flynyddol. Mae fy nhaith yn mynd â fi i bob cwr o Gymru, ac mae'n fraint i mi fel rhan o hyn gael cwrdd â'r rheini sy'n gweithio ar y rheng flaen yn darparu gwasanaethau cyhoeddus – mewn awdurdodau lleol, iechyd, tai a'r trydydd sector. Rwyf hefyd yn ymweld â phrosiectau a darparwyr gwasanaethau i gwrdd â phrentisiaid a disgyblion, preswylwyr tai cymdeithasol a rhieni i wrando ar eu barn a gweld y gwahaniaeth y mae ein buddsoddiadau yn ei wneud.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn crynhoi'r cynnydd cadarnhaol sydd wedi digwydd. Un o'r elfennau allweddol yn llwyddiant Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yw ymgysylltu â phartneriaid darparu a rhanddeiliaid yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Fel rhan o'n gwaith parhaus i wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch, rwy'n arbrofi am y tro cyntaf gyda chyhoeddi Llif o Brosiectau Arfaethedig Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru mewn fformat gwahanol, gyda'r bwriad o asesu'r budd o allu pori drwy'r data yn y ffyrdd sydd fwyaf defnyddiol i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi bod yn cyfathrebu â phob math o gynrychiolwyr o gyrff a sefydliadau proffesiynol ac wedi mwynhau deialog agored ac adeiladol. Mae'r cydweithrediad hwn yn unigryw i'n gwaith o fuddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru, ac rwy'n edrych ymlaen at adeiladu ar y cysylltiadau gwerthfawr hyn yn y flwyddyn i ddod.





**Jane Hutt AC**
**Y Gweinidog Cyllid**
**a Busnes y Llywodraeth**

# 2. Cyflawni'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

## 2.1 Y cefndir

Mae ein cyllidebau cyfalaf wedi dioddef toriadau llym dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yn wyneb y toriadau difrifol hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau'n ymrwymedig i bolisi o 'ysgogi economaidd' sy'n canolbwyntio ar hybu buddsoddiad mewn seilwaith.


Mae'r ymrwymiad hwn yn fwy hanfodol nag erioed. Er ein bod yn dod allan o'r dirwasgiad, rydym yn wynebu cyfnod anodd o hyd. Mae'r rhagolwg yn heriol o safbwynt gwariant cyhoeddus, gyda chyni cyllidol yn ystod nesaf yr Adolygiad o Wariant. Rydym yn gwybod bod angen parhau i fuddsoddi os ydym am ddiwallu anghenion seilwaith Cymru.

Rydym wedi amlinellu strategaeth sy'n canolbwyntio ar wneud y gorau posibl o'r adnoddau sydd gennym a'u targedu ar y meysydd hynny lle gallant fod mor effeithiol â phosibl. Mae ein gweledigaeth ar gyfer seilwaith o ansawdd uchel yng Nghymru i'w gweld yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, sef y cyfrwng allweddol ar gyfer sicrhau ein buddsoddiadau cyfalaf strategol. Mae'n llywio penderfyniadau buddsoddi ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat ac yn sail i'n hymrwymiad i hybu'r adnoddau sydd ar gael i Gymru lle bynnag y bo'n bosibl.

Rydym wedi cyflawni'r nod yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru o fuddsoddi £3.5 biliwn dros dair blynedd gyntaf y cynllun. Rhwng 2012-13 a 2014-15 rydym wedi dyrannu cyfanswm o fwy na £4 biliwn o gyllid Llywodraeth Cymru i fuddsoddi cyfalaf, gydag £1.44 biliwn pellach ar y gweill ar gyfer 2015-16.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyfran gynyddol o'r gyllideb gyfalaf y mae Llywodraeth Cymru wedi'i derbyn wedi bod ar ffurf cyfalaf Trafodiadau Ariannol. Mae cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn cefnogi benthyca a buddsoddi ecwiti yn hytrach na grantiau cyfalaf traddodiadol ac mae'n cael ei ddefnyddio i fuddsoddi mewn prosiectau fel y cynllun Cymorth Prynu. Yn y pen draw, mae'n rhaid ad-dalu'r cyllid hwn i Drysorlys y DU. Felly, yn ogystal â sicrhau bod ein hadnoddau cyfyngedig yn gwireddu'r buddion gorau posibl, caiff ein penderfyniadau mewn perthynas â Thrafodiadau Ariannol eu hystyried yn ofalus er mwyn ystyried yn llawn sut gall y cyfalaf hwn ysgogi'r lefel o dwf ariannol neu arbedion effeithiolrwydd sy'n angenrheidiol i adennill y buddsoddiad cyfalaf sylfaenol dros gyfnod.

Mae'r graff isod yn dangos ein cyllidebau cyfalaf dros y blynyddoedd diwethaf.




Ochr yn ochr er mwyn cefnogi hyn, rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar ddatblygu a chyflwyno llif o brosiectau seilwaith arfaethedig uchelgeisiol a blaengar ar gyfer Cymru, gan weithio gyda'n partneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i amlinellu'r cyfleoedd

buddsoddiad sylweddol sydd ar gael yng Nghymru. Mae cydweithredu a chyfathrebu wedi bod yn flaenllaw yn y gwaith hwn, gan gydnabod bod hyder mewn buddsoddiad yn y dyfodol yn ffactor allweddol o ran denu cyllid sector preifat hanfodol i Gymru.

## 2.2 Cynnydd yn erbyn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

Mae ein Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith a set o flaenoriaethau strategol i helpu i'w gyflawni.  Y blaenoriaethau hyn yw;

- Gwella rhwydweithiau trafnidiaeth;
- Gwella rhwydweithiau telathrebu;
- Helpu i ddatblygu'r diwydiant ynni yng Nghymru;
- Buddsoddi mewn tai;
- Darparu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon a darbodus;
- Gwella ansawdd yr ystad addysgol;
- Datblygu ein Hardaloedd Menter.

Rydym wedi strwythuro ein buddsoddiadau a'n cyflawni o amgylch y blaenoriaethau hyn; mae Adran 3 yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at nifer o lwyddiannau sectoraidd allweddol ac yn nodi astudiaethau achos sy'n dangos y cynnydd sydd wedi digwydd.

Nodwyd 4 nod yn ein strategaeth ar cyflawni'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn llwyddiannus. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran eu rhoi ar waith:

**1** Creu system sy'n nodi ac yn blaenoriaethu cynlluniau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd ar draws cyfrifoldebau adrannol, gan ganolbwyntio adnoddau ar y buddsoddiadau sydd â'r mwyaf o flaenoriaeth ac yn cynnig y budd mwyaf yn unol â datblygu cynaliadwy.

Rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu ar gyfer gwerthuso a blaenoriaethu cynlluniau ar gyfer dyraniadau cyfalaf sy'n cael ei lywio gan ganlyniadau ac yn seiliedig ar dystiolaeth, gyda blaenoriaethu eglur sy'n hybu'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, mae'r dull gweithredu hwn yn gryfach fyth drwy gymhwyso'r model busnes 5 achos i'r gwaith o baratoi achosion busnes. Mae hyn yn golygu y caiff cynigion eu gwerthuso i benderfynu a ydynt yn cydweddu'n strategol, yn cynnig buddion economaidd, gwerth am arian a nodweddion masnachol, ac a ydynt yn fforddiadwy ac yn ymarferol.

**2** Buddsoddi mwy o adnoddau mewn seilwaith strategol sy'n cael ei flaenoriaethu dros y deg mlynedd nesaf y tu hwnt i'r lefelau cyllidebu disgwyliedig.

Hyd yn hyn, rydym wedi dyrannu **£1.2 biliwn ychwanegol** o gronfeydd cyfalaf Llywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau allweddol sy'n cyflawni blaenoriaethau Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn ychwanegu at gyllidebau cyfalaf adrannol prif ffrwd, ac yn cynnwys:

- Dros £300 miliwn i wella rhwydweithiau trafnidiaeth;
- £20 miliwn i wella rhwydweithiau telathrebu;
- £80 miliwn i helpu i ddatblygu'r diwydiant ynni yng Nghymru;
- Buddsoddi mwy na £350 miliwn mewn tai ac adfywio;
- Dros £170 miliwn i helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon a darbodus, gyda'r mwyafrif yn cael ei gyfeirio at wasanaethau iechyd;
- Dros £120 miliwn i wella ansawdd yr ystad addysgol;
- Dros £66 miliwn i ddatblygu ein Hardaloedd Menter a Datblygu Economaidd;

Mae'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru hefyd yn cadarnhau ein hymrwymiad i ddatblygu llif o atebion ariannol arloesol arfaethedig i sicrhau seilwaith sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae cynnydd sylweddol wedi digwydd, gyda buddsoddiad cyfredol ac ar y gweill yn dod i oddeutu **£2.4 biliwn** i gefnogi'r blaenoriaethau buddsoddi strategol yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

Mae'r cynlluniau gweithredol yn cynnwys:

- Buddsoddiad o oddeutu £125 miliwn drwy'r Grant Cyllid Tai i helpu i godi tua 1,000 o dai fforddiadwy.
- Buddsoddiad o oddeutu £340 miliwn drwy'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol, yn galluogi:
  - buddsoddiad o oddeutu £170 miliwn mewn priffyrdd;
  - buddsoddiad o oddeutu £170 miliwn yn rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i sicrhau y caiff ei chyflawni erbyn 2018-19, ddwy flynedd yn gynt na'r disgwyl. Mae cyfalaf ychwanegol o £30 miliwn yn ategu'r rhaglen hon yn 2015-16.

Mae'r cynlluniau yn y cyfnod cynllunio y mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo iddynt yn cynnwys:

- llif o brosiectau arfaethedig gwerth £1 biliwn i'w gyflawni drwy'r Model nad yw'n Dobarthu Elw, gan gynnwys:
  - buddsoddiad o £500 miliwn i adeiladu ysgolion â blaenoriaeth yn flaenllaw yng ngham nesaf rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif o 2019,
  - Buddsoddiad newydd i gwblhau'r gwaith o ddeuoli'r A465,
  - Cyllid i ddarparu cyfleuster gofal canser arbenigol, gan wella'r gwaith rhagorol y mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ei wneud.
- estyniad o £250 miliwn i'r Grant Cyllid Tai – disgwylir i hyn ddarparu 2,000 yn fwy o unedau tai a chreu tua 5,000 o swyddi yn y sector adeiladu. Disgwylir i'r cynllun newydd fod ar waith o 2017-18;
- £150 miliwn i'r Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, a ddylai fod yn weithredol o 2018.
- Mynediad at £500 miliwn o fenthyca uniongyrchol, ac mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu defnyddio hyd at £400 miliwn i gefnogi coridor yr M4 o amgylch Casnewydd;

## 3 Lleihau costau cynnal a chyflwyno seilwaith a sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian drwy ein buddsoddiadau.

Rydym wedi safoni ein gwaith ym maes sicrwydd busnes a chyflwyno cynlluniau ar draws Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n fwy cyson wrth ddatblygu a gwerthuso achosion busnes, monitro buddsoddiadau'n well a rheoli cynlluniau mawr mewn ffordd newydd.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi:

- Sefydlu Rhwydwaith Achosion Busnes Gwell ar gyfer ymarferwyr achosion busnes yn sector cyhoeddus Cymru. Mae'r rhwydwaith yn cynnig fforwm i ymarferwyr achosion busnes ddod at ei gilydd yn rheolaidd, rhannu arfer gorau, cynnig cymorth rhwng ac ar draws sectorau, a magu arbenigedd. Mae aelodaeth y rhwydwaith wedi tyfu i gynnwys aelodau o sefydliadau ledled y DU. Mae'r grŵp craidd o aelodau Cymreig yn cynnwys cynrychiolwyr o fyrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.
- Rhoi mwy o sicrwydd a rheolaeth drwy broses asesu risg sy'n berthnasol i holl lif rhaglenni a phrosiectau arfaethedig Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru Llywodraeth Cymru drwy Ganolbwynt Sicrwydd Integredig. Mae'r Canolbwynt yn sicrhau bod sicrwydd annibynnol ar gyfer prosiectau mawr drwy ddarparu mesurau sicrwydd fel adolygiadau Porth Swyddfa Masnach y Llywodraeth (OCG). Mae proses Porth OGC yn asesu'r prosiect ar adegau allweddol yn ei gylch bywyd yn erbyn nifer o ffactorau, gan gynnwys ei gapasiti i gyflawni'n brydlon, o fewn cost ac ansawdd, a gwireddu'r buddion y prosiect.
- Integreiddio polisi budd i'r gymuned yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i sicrhau bod caffael y prosiectau buddsoddi hyn yn cynnig cynifer â phosibl o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant yng Nghymru. Mae budd i'r gymuned yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar draws sector cyhoeddus Cymru. Ym mis Mehefin 2015, mae 78 o brosiectau gwerth £674 miliwn wedi cael eu cwblhau drwy gyfrwng y polisi budd i'r gymuned. Mae 84% o gyfanswm gwerth y contractau hyn wedi cael ei ail-fuddsoddi yng Nghymru. Mae hyn yn golygu £164 miliwn yn uniongyrchol ar gyflogau trigolion Cymru a £395 miliwn gyda busnesau yng Nghymru – gyda 74% o'r rhain yn BBaChau

Cymreig. Hefyd, helpwyd mwy nag 800 o bobl i gael cyflogaeth neu hyfforddiant, a darparwyd 22,775 o wythnosau o hyfforddiant.

- Parhau i ddatblygu'r ffordd rydym yn rheoli asedau a chynyddu maint ac ansawdd yr wybodaeth am asedau sector cyhoeddus sydd ar y gronfa ddata ePIMS, gan gynnwys diweddaru mapiau. Mae faint o wybodaeth eiddo sydd ar gael wedi ehangu'n sylweddol o 11,500 ym mis Mawrth 2012 i 22,800 ym mis Ebrill 2015, ac fe'i datblygwyd dros y 12 mis diwethaf i gynnwys Landlordiaid Cofrestredig Cymdeithasol fel sector a daliadau Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Ym mis Ionawr 2015, lansiwyd porthol 'Space Cymru', sef cronfa ddata sy'n agored i'r cyhoedd er mwyn tynnu sylw at asedau tir ac eiddo'r sector cyhoeddus sydd ar gael yng Nghymru.

**4** Sefydlu a chynnal system fonitro newydd ar wariant seilwaith strategol mawr yng Nghymru, gan wella rheolaeth a gweledEdd cyhoeddus.

Ers lansio'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn 2012, mae diweddariadau rheolaidd wedi cael eu cyhoeddi i'r llif o brosiectau arfaethedig, ac mae'r diweddaraf o'r rhain i'w weld fel atodiad i'r adroddiad hwn. Mae'r llif o brosiectau arfaethedig yn rhoi darlun o'r buddsoddiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer seilwaith yng Nghymru, i gefnogi penderfyniadau ynghylch buddsoddi yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, hwyluso cynllunio strategol ac annog cydweithredu. Mae hefyd yn cynnig gweledEdd i randdeiliaid.

Rydym wedi ceisio gwella'r llif ym mhob diweddariad. Mae'r llif o brosiectau arfaethedig wedi cael ei gryfhau a'i ymestyn dros y tair blynedd drwy gydweithredu â phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn cynnwys manylion buddsoddiad mewn seilwaith ar draws Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ac ym meysydd ynni a rheilffyrdd sydd heb eu datganoli. Yn fwyaf diweddar, ychwanegwyd buddsoddiad mewn seilwaith dŵr, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i ymestyn yr ystod o wybodaeth sydd ar gael i gefnogi'r gwaith o gynllunio at y dyfodol. Eleni, rydym wedi canolbwyntio ar wneud yr wybodaeth yn fwy hygyrch. Bydd Llif Prosiectau Arfaethedig y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar gael ar-lein mewn fformat mwy hygyrch am y tro cyntaf, gyda'r bwriad o asesu'r buddion sy'n bosibl mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid.

Mae ymgysylltu â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid yn rhan allweddol o'r cynnydd sydd wedi digwydd. Mae'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth wedi cynnal deialog cryf gydag amryw bartneriaid, ac mae ymgysylltu a chydweithredu wrth wraidd y gwaith o gyflawni'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

## 2.3 Edrych ymlaen

### 2015-16

Er mwyn adeiladu ar y cynnydd cadarnhaol hwn, mae cyllideb Llywodraeth Cymru 2015-16 yn cynnig £90 miliwn ychwanegol ar gyfer:

- Cyllid cyfalaf ychwanegol o £10 miliwn ar gyfer Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru.
- Hwb o £3 miliwn i'w fuddsoddi yn ein Hardaloedd Menter.
- Buddsoddiadau o £40 miliwn mewn llwybrau trafnidiaeth allweddol, gan gynnwys £10 miliwn ar gyfer buddsoddiad trafnidiaeth strategol yn y Gogledd.
- £32 miliwn i ymestyn ein hymrwymiad i fentrau tai.
- £5 miliwn i gefnogi sectorau ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd adnoddau ac effeithlonrwydd ynni Cymru drwy ein Cronfa Twf Gwyrdd arloesol newydd.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Wrth wneud ein penderfyniadau buddsoddi, byddwn hefyd yn ystyried deddf newydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a ddaw i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn sicrhau nad yw'n camau i ddiwallu anghenion heddiw yn peryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol, gan ddefnyddio set o nodau llesiant hirdymor ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru, gyda'r nod o greu gwlad fwy iach, cyfoethog a chynaliadwy. Wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau, mae'n rhaid i ni ystyried y 7 nod ar gyfer Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal,

Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Er mwyn creu'r '**Gymru a Garem**', mae'n rhaid i bawb ystyried y goblygiadau a'r manteision hirdymor a all godi o'n gwaith cynllunio, buddsoddi a chyflawni strategol. Mae'n rhaid i ni ystyried sut gall buddsoddi nawr leihau costau yn y dyfodol drwy ganolbwyntio ar wariant i atal problemau. Mae hefyd yn rhaid i ni ystyried pa gamau pellach y gallwn eu cymryd i integreiddio ein gwasanaethau, sut gallwn weithio'n fwy cydweithredol a sut gallwn fynd ati'n briodol i gynnwys y rheini sy'n darparu ac yn defnyddio'n gwasanaethau.

### Y tu hwnt i 2015-16

Mae'r camau a gymerwyd ers cyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn sylfaen gadarn wrth i ni symud tuag at gyfnod yr Adolygiad o Wariant nesaf, lle rydym yn gwybod y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd ynghylch yr heriau ariannol. Bydd yn bwysicach nag erioed i barhau i fuddsoddi'n strategol mewn seilwaith, a manteisio gyda'n partneriaid ar yr hyblygrwydd sy'n bodoli yng Nghymru i greu'r cyfleoedd buddsoddi a fydd yn parhau i gefnogi twf a swyddi.

## 2.4 Crynodeb

Ers ei gyhoeddi yn 2012, mae'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru wedi gosod y cyfeiriad i ni fuddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru. Wrth fwrw ymlaen â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, rydym wedi:

- **Cryfhau'r ffordd rydym yn gwerthuso ac yn blaenoriaethu dyrannu adnoddau** – mae penderfyniadau yn cael eu llywio gan ganlyniadau ac yn seiliedig ar dystiolaeth, gyda blaenoriaethu clir mewn ffordd sy'n hybu'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.
- **Targedu £1.2 biliwn ychwanegol** o gronfeydd cyfalaf Llywodraeth Cymru i gefnogi ein blaenoriaethau buddsoddi craidd.
- **Datblygu atebion cyllid arloesol** er mwyn cynyddu buddsoddiad gan £2.4 biliwn.
- **Safoni ein gwaith ym maes sicrwydd busnes** a chyflwyno cynlluniau ar draws Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach.
- **Bwrw ymlaen â'n polisi budd i'r gymuned** i wneud y gorau posibl o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ledled Cymru.
- **Datblygu a chyhoeddi diweddariadau i'r llif o brosiectau arfaethedig yn rheolaidd** – gan roi'r darlun diweddaraf o fuddsoddi mewn seilwaith ledled Cymru.

Er gwaethaf cyfyngiadau ariannol sylweddol, mae nifer o brosiectau cyfalaf mawr llwyddiannus wedi cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod hwn o gyni cyllidol. Mae'r adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai o'r llwyddiannau allweddol fesul sector. Mae hyn yn dangos sut mae'n buddsoddiadau yn gweithio er budd Cymru gyfan.

# 3. Sicrhau canlyniadau i Gymru

Nododd ein Strategaeth Tlodi Plant a'n Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn eglur y newidiadau rydym yn ceisio'u gwireddu, gan gydlynu camau gweithredu ar draws y Llywodraeth a gweithio gyda phartneriaid ar bob lefel. Elfen ganolog o'n gwaith strategol i drechu tlodi yw dyblu nifer y plant a theuluoedd sy'n elwa ar Dechrau'n Deg, o 18,000 i 36,000 erbyn 2016. Mae £19 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol wedi cael ei ddarparu i hybu'r rhaglen bwysig hon, sydd wedi cefnogi cynlluniau fel y Ganolfan Dechrau'n Deg yn Ysgol Gynradd Bryn Deva.



### Astudiaeth Achos – Dechrau'n Deg


Datblygu Canolfa Dechrau'n Deg ar safle Ysgol Gynradd Bryn Deva yw prosiect mwyaf uchelgeisiol Sir y Fflint. Dyfarnwyd cyllid o £825,000 i alluogi'r awdurdod lleol i greu canolfan a fyddai'n cynnig lleoedd gofal plant, yn ogystal â gweithfan i'r tîm amlasiantaeth Dechrau'n Deg a lleoliad ar gyfer gwaith grŵp fel rhaglenni rhianta, datblygiad iaith cynnar etc.

Cwblhawyd y ganolfan yn ddiweddar ac mae'r cyfleuster gofal plant wedi'i gofrestru ar gyfer 24 o blant, sy'n golygu y gall 48 o blant y dydd elwa ar y ddarpariaeth ansawdd uchel rhan amser. Mae crèche ar y safle hefyd, sy'n ei gwneud yn haws i blant ddefnyddio llawer o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Gan weithio mewn partneriaeth gydag Ysgol Bryn Deva a Chylch Chwarae Jigsaw, mae'r ddarpariaeth gofal plant newydd yn sicrhau bod modd ateb pob cais am leoedd gofal plant.

Yn ogystal â chynnig canolbwynt hygyrch i rieni a gweithfan i'r tîm lleol Dechrau'n Deg, mae'r ganolfan yn golygu bod modd darparu mwy o wasanaethau Dechrau'n Deg. Er enghraifft, caiff cyrsiau tylino babanod, datblygiad iaith cynnar a rhaglenni rhianta eu cyflwyno i rieni, a all ddod â'u plant gyda nhw i gael gofal gan staff cymwys yn y crèche ar y safle.

## Uchafbwyntiau Sectoraidd

Mae dull sectoraidd o weithio wedi ein galluogi i gadw ffocws ar y canlyniadau wedi'u targedu sy'n galluogi twf a swyddi, gan wneud popeth o fewn ein gallu i liniaru effaith cynlluniau cynilo Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar bobl a gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Yn unol â'r nodau a amlinellir yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, rydym wedi ceisio **sicrhau cymaint â phosibl o adnoddau** o fuddsoddi a **chreu'r effaith fwyaf bosibl** drwy fuddsoddi.



# 3.1 Datblygu Economaidd

## Sicrhau cymaint â phosibl o adnoddau i'w buddsoddi

Ers cyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, rydym wedi targedu buddsoddiad o £170 miliwn drwy gyllideb graidd ein Hadran i ategu ein blaenoriaethau economaidd o wella rhwydweithiau telathrebu a datblygu ein Hardaloedd Menter, yn ogystal â darparu cymorth mwy cyffredinol i weithgareddau twf yr economi a busnesau.

I sicrhau bod cyfanswm y cyllid sydd ar gael inni yng Nghymru'n cael yr effaith fwyaf bosibl, rydym wedi gweithio'n galed i gryfhau ein gwaith partneriaeth, cysoni nodau a rennir ac annog buddsoddiad newydd. Mae sicrhau cyllid preifat ychwanegol i'w fuddsoddi yn seilwaith cyhoeddus Cymru wedi bod yn ganolog i'r ymagwedd hon. Rydym hefyd wedi buddsoddi £66 miliwn o ddyraniadau cyfalaf ychwanegol ers lansio'r Cynllun i roi hwb i gyllid ar gyfer ein blaenoriaethau economaidd. Rydym hefyd yn gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu cynigion am gynllun newydd wedi'i ariannu gan yr UE i gynorthwyo i ddarparu seilwaith i ystod o safleoedd cyflogaeth strategol, ac i ddarparu eiddo busnes.

## Creu'r effaith fwyaf bosibl drwy fuddsoddi

Mae'r mecanweithiau i ddenu buddsoddiad preifat i seilwaith cyhoeddus wedi ein galluogi i ddatblygu nifer o gynlluniau newydd, arloesol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- sefydlu cronfa JEREMIE gyntaf y Deyrnas Unedig, â gwerth cyfalaf o £150 miliwn, a oedd yn cynnwys £75 miliwn o gyllid Banc Buddsoddi Ewrop;
- darparu'r cynllun **Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru** gwerth £425 miliwn (Cyflymu Cymru) mewn partneriaeth â BT;
- sefydlu'r Gronfa Fuddsoddi BBaChau gwerth £40 miliwn, menter ar y cyd â Barclays a helpodd i greu, neu ddiogelu, hyd at 4,000 o swyddi.

Mae'r llwyddiannau allweddol eraill yn ystod flwyddyn ddiwethaf hon yn cynnwys:

- hybu datblygiad swyddfeydd "Gradd A" modern o safon uchel, megis **Adeilad Rhif 1, Cwr y Ddinas**. Ers inni ei gaffael ym mis Mawrth 2014, mae dros 60 y cant o'r 80,000 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr wedi'i osod;
- mae datblygiad preifat **Adeilad Rhif 2 Cwr y Ddinas** gan J R Smart, gyda chymorth Grant Datblygu Eiddo gwerth dros £1 miliwn gan Lywodraeth Cymru, i ddarparu 84,000 troedfedd sgwâr o fan swyddfa Gradd A wedi'i ddechrau a bwriedir ei gwblhau erbyn diwedd 2015;
- cwblhau **pont gerddwyr Smart** newydd arloesol gwerth £2.5 miliwn i gysylltu cynllun datblygu Cwr y Ddinas a'r busnesau cyfagos â chanol y ddinas;
- cwblhau'r cam pentyrru llenni sy'n rhan o'r gwaith sydd ar y gweill ar **amddiffynfeydd llifogydd presennol afon Dyfrdwy** a dechau cynllunio ar gyfer y seilwaith ffyrdd ar safle Porth y Gogledd, sy'n gyfrannwr mawr at nodau twf busnes yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy. Bydd y gwaith gwerth £2.2 miliwn, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn caniatáu datblygiad ar safle Porth y Gogledd, ac yn gwella amddiffynfeydd llifogydd busnesau a chartrefi mewn ardal fwy;



- cwblhau prosiect gwerth £1 miliwn yn **Rhyd y Blew** yn Ardal Fenter Glynebwy sydd wedi darparu mynediad newydd i'r safle a darparu trydan, nwy, dŵr a thelathrebu i'r fynedfa.



## Astudiaeth Achos – Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau

Nod Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau yw hybu twf yn y sectorau ynni adnewyddadwy a thraddodiadol yn ogystal â chreu buddion i'r economi ranbarthol ehangach. Mae llwyddiannau allweddol yn y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Ar ôl i Lywodraeth Cymru gaffael y safle'n strategol, cafodd safle Waterston ei farchnata a chafwyd 5 cynnig. Bydd gwerthiant llwyddiannus yn arwain at fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol sylweddol yn y safle allweddol hwn.
- Mae ffiniau'r Ardal wedi'u hymestyn i ganiatáu i fwy o fusnesau lleol elwa o statws Ardal Fenter a chynyddu'r potensial i ddenu mwy o fuddsoddiad. Mae ffin newydd yr Ardal i'w gweld yn www.business.wales.gov.uk/enterprisezones.
- Cwblhawyd y gwelliannau i'r A477 a gostiodd bron i £68 miliwn ym mis Ebrill, gan wella'r ffyrdd i mewn ac allan o'r Ardal yn sylweddol, a chreu buddion cadarnhaol i'r boblogaeth a busnesau lleol.
- Ym mis Awst 2014, cafodd Tyrbin Ffrwd Lanw DeltaStream ei ddadorchuddio, sef y generadur ynni llanw cyflawn cyntaf yng Nghymru. Cytunwyd i werthu'r trydan a gynhyrchir i EDF am gyfnod o ddeuddeg mis. Am y tro cyntaf, bydd yr ardal arddangos tonnau oddi ar Dde Sir Benfro'n galluogi sefydliadau lleol i reoli ac is-osod rhannau o wely'r môr i ystod o ddatblygwyr tonnau a ffrwd lanw.
- Mae Genpower wedi sicrhau pecyn cyllid gwerth £1.5 miliwn i greu 35 o swyddi a chynorthwyo caffaeliad eu pencadlys 110,000 troedfedd sgwâr yn Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau.
- Mae Consort Equipment Products yn buddsoddi £1 miliwn yn eu pencadlys yn Aberdaugleddau.
- O ganlyniad i'r buddsoddiad yn rhaglen Cyflymu Cymru, mae 31,372 eiddo nawr yn gallu archebu band eang 'Cyflym Iawn' yn Sir Benfro. Mae gwaith yn parhau i ganolbwyntio ar Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau fel prif flaenoriaeth economaidd.




## 3.2 Trafnidiaeth

### Sicrhau cymaint â phosibl o adnoddau i'w buddsoddi

Ers cyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, rydym wedi buddsoddi £768 miliwn drwy gyllideb graidd ein Hadran yn unol â'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol sydd wedi darparu buddsoddiad i wneud i'r system drafnidiaeth yng Nghymru weithio'n well i helpu i drechu tlodi, gwella llesiant a chynorthwyo twf economaidd.

Rydym hefyd wedi rhoi hwb i'r adnoddau sydd ar gael i ddatblygu seilwaith ffyrdd drwy fuddsoddi tua £170 miliwn mewn gwella priffyrdd drwy gyfrwng y Fenter Benthyca Llywodraeth Leol. Fel rhan o'n cyfres o gynlluniau ariannu arloesol, rydym hefyd yn datblygu cynllun nad yw'n dosbarthu elw i gwblhau'r gwaith o ddeuoli'r A465 Blaenau'r Cymoedd. Rydym hefyd yn ymroddedig i ddefnyddio hyd at £400 miliwn o'n pwerau benthyca newydd i ariannu gwell mynediad i Gymru drwy gyfrwng coridor yr M4 o gwmpas Casnewydd. Rydym hefyd wedi dod i gytundeb â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â thrydaneiddio rheilffyrdd Cymoedd De Cymru a phrif reilffordd De Cymru i Abertawe.

### Creu'r effaith fwyaf bosibl drwy fuddsoddi

Gan ddefnyddio'r buddsoddiad sydd ar gael, rydym wedi rhoi'r rhan fwyaf o'n hadnoddau yn y mannau lle gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf a chael yr effaith orau. Rydym wedi cwblhau nifer o brosiectau gwella mawr ar y rhwydwaith ffyrdd strategol, gan gynnwys cwblhau:

- cynllun yr A477 Sanclêr i Ros-goch;
- rhan o'r A465 Blaenau'r Cymoedd;
- ffordd ddosbarthu cyrion Port Talbot;
- cynllun gwella Gelligemlyn yr A470;
- cynllun gwella Glan Dyfi yr A487.

Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu Metro De Cymru ac mae llawer o brosiectau cam 1 wedi'u cwblhau a fydd yn helpu i ddarparu'r seilwaith ar gyfer camau'r dyfodol ynghyd â gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus ar unwaith.

Yn ogystal â'n rhaglen seilwaith ffyrdd, rydym hefyd wedi cwblhau gwelliannau sylweddol i orsafoedd rheilffordd dan y Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd, megis y datblygiadau newydd yn Pye Corner a Glynebwy.

Mae llwyddiannau eraill dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:-

- Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar **Gynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru 2015**. Cyhoeddir cynllun terfynol ar ôl ystyried yr ymatebion a gafwyd a bydd yn rhan o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac yn cadarnhau'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn trafnidiaeth yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar amserlen cyflawni a fydd yn pennu'r ymyriadau a ddatblygir dros y 5 mlynedd nesaf hyd at 2020 a thu hwnt.
- Bwrw ymlaen â gwaith ar nifer o gynlluniau ffyrdd penodol eraill gan gynnwys adrannau 3 a 2 yr A465, yr A487 Caernarfon i Bontnewydd, gwella Cyffordd 28 yr M4 a Ffordd Gyswllt Dwyrain Bae Caerdydd.





## Astudiaeth Achos – Rheilffordd Glyn Ebwy

Ailagorodd rheilffordd Glyn Ebwy i wasanaethau teithwyr rheilffordd yn 2008 ar ôl cwblhau'r prosiect gwerth £30 miliwn i ailddechrau defnyddio'r rheilffordd ar gyfer teithwyr. Mae'r gwasanaethau bob awr o Barcffordd Glynebwy i Gaerdydd Canolog wedi bod yn boblogaidd, a niferoedd y teithwyr yn uwch na'r rhagolygon gwreiddiol. O ganlyniad i'r galw cryf gan deithwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer y gwelliannau canlynol:

- Gorsaf Pye Corner, Casnewydd – Agorwyd Gorsaf Pye Corner i wasanaethau teithwyr ym mis Rhagfyr 2014, a chafodd £1.4 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru yn ogystal â £2.15 miliwn o Gronfa Gorsafoedd Newydd yr Adran Drafnidiaeth. Pye Corner oedd yr orsaf newydd gyntaf a agorwyd fel rhan o'r gronfa hon, a'r unig un yn y Deyrnas Unedig a fodlonodd gerrig milltir gwreiddiol yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer ariannu. Cyflawnwyd hyn drwy strategaeth arloesol o gaffael a rheoli prosiectau a arweiniwyd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru er mwyn gallu cwblhau'r gwaith o adeiladu'r orsaf yn gyflymach na phrosesau safonol y diwydiant rheilffyrdd.
- Gorsaf Tref Glynebwy a'r estyniad rheilffordd cysylltiedig – Agorwyd Gorsaf Tref Glynebwy i wasanaethau teithwyr, a'r estyniad rheilffordd cysylltiedig, ym mis Mai 2015 o ganlyniad i fuddsoddiad £11.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Cwblhawyd y cynllun hwn o fewn amserlen garlam; adeiladwyd y rheilffordd newydd a'r orsaf o fewn pedwar mis. Roedd hyn yn bosibl oherwydd gwaith partneriaeth agos rhwng Llywodraeth Cymru, Network Rail, Trenau Arriva Cymru a Chyngor Blaenau Gwent.
- Gwelliannau Amlder Rheilffordd Glyn Ebwy – Mae hwn yn gynllun parhaus gwerth £35 miliwn i gynyddu gallu Rheilffordd Glyn Ebwy i ganiatáu gwasanaethau ychwanegol a rhai cyflymach. Ar ôl ei gwblhau, bydd cledrau dwbl ar tua 7 milltir o'r rheilffordd rhwng Aber-bîg a Cross Keys a fydd yn caniatáu trenau bob hanner awr o Dref Glynebwy, a'r posibilrwydd o wasanaethau ychwanegol pellach i wasanaethu Casnewydd yn ogystal â Chaerdydd.



## 3.3 Yr Amgylchedd

### Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

#### Sicrhau cymaint â phosibl o adnoddau i'w buddsoddi

Mae buddsoddi yn ein seilwaith amddiffynfeydd llifogydd a gwella gwytnwch i'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol yn hanfodol i ddatblygiad parhaus economi Cymru. Ers cyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, rydym wedi buddsoddi bron i £44 miliwn drwy gyllideb graidd ein Hadran mewn gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Rydym hefyd wedi rhoi hwb i'r adnoddau sydd ar gael i fwrw ymlaen â'n rhaglen i wella amddiffynfeydd llifogydd ac arfordiroedd ledled Cymru drwy sicrhau dros £50 miliwn o gyllid Ewropeaidd yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Rydym hefyd wedi dyrannu tua £50 miliwn o gyfalaf ychwanegol ac rydym yn datblygu cynllun cyllid arloesol gwerth £150m i ymdrin â rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd. Bydd y rhaglen gyllid arloesol yn ategu'r rhaglen Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd o 2018-2021, gan helpu cynlluniau addasu, adfywio a gwella arfordirol a nodir gan awdurdodau lleol arfordirol.

#### Creu'r effaith fwyaf bosibl drwy fuddsoddi

Gan ddefnyddio'r buddsoddiad sydd ar gael, rydym wedi rhoi'r rhan fwyaf o'n hadnoddau yn y mannau lle gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf a chael yr effaith orau. Rydym yn parhau i weithio tuag at leihau perygl llifogydd ac arfordiroedd i gartrefi a busnesau drwy ddatblygu a chyflawni cynlluniau llwyddiannus megis cynlluniau lliniaru llifogydd Borth a Chorwen a chynllun adfer Arfordir Bae Colwyn. Diolch i'r holl gynlluniau llifogydd a gefnogir, mae dros 3,500 eiddo yng Nghymru'n elwa o well amddiffyniad yn erbyn perygl llifogydd, ynghyd â thrafnidiaeth a seilwaith arall. Mae buddion eraill yn cynnwys creu swyddi yn ystod y cam adeiladu, diogelu swyddi mewn busnesau sy'n bodoli eisoes, creu cynefinoedd a chysylltiadau â thwristiaeth, adfywio a hamdden.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein prif lwyddiannau wedi cynnwys:

- Cwblhau pob cam o **gynllun lliniaru llifogydd Borth, cynllun lliniaru llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru Penclawdd a phob gwaith atgyweirio brys** i amddiffynfeydd arfordirol a ddioddefodd ddifrod yn stormydd gaeaf 2014.
- Cynnydd sylweddol yng **nghynlluniau lliniaru llifogydd Dolgellau, Pontarddulais, y Rhath a Rhymni a Chyfoeth Naturiol Cymru Crindau**.
- Mae **Cynllun Cyflenwi Arfordirol Cyfoeth Naturiol Cymru** wedi'i gyhoeddi ynghyd ag argymhellion ynglŷn â sut i barhau i gynyddu gwytnwch arfordiroedd yn erbyn llifogydd a newid yn yr hinsawdd.

### Gwastraff

#### Sicrhau cymaint â phosibl o adnoddau i'w buddsoddi

Ers cyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, rydym wedi buddsoddi £28.8 miliwn drwy gyllideb graidd ein Hadran mewn gwaith i wella'r amgylchedd i reoli ac atal gwastraff.



Rydym hefyd yn rhoi hwb i'r adnoddau sydd ar gael i helpu i ymdrin â fforddiadwyedd seilwaith gwastraff cynaliadwy yng Nghymru drwy gyfrwng y rhaglen arloesol ac unigryw gwerth £750m, y Rhaglen Caffael Seilwaith Gwastraff. Sefydlwyd y rhaglen arloesol hon, a ddarperir drwy gyfrwng Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat, yn 2008 i weithredu'r strategaeth genedlaethol, Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Yn y dyfodol, byddwn hefyd yn archwilio dichonoldeb defnyddio dulliau cyllido eraill, gan gynnwys cyllid yr UE.

## Creu'r effaith fwyaf bosibl drwy fuddsoddi

Ers lansiad y Rhaglen Caffael Seilwaith Gwastraff, mae chwe chontract wedi'u dyfarnu i brosiectau gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol a phedwar ohonynt ar waith ar hyn o bryd. Mae tri chyfleuster treulio anaerobig wedi'u hadeiladu i drin gwastraff bwyd trefol yng Nghymru ac mae'r Prosiect Gwyrdd (partneriaeth o bum awdurdod yn Ne Ddwyrain Cymru) wedi rhoi contract 25 mlynedd i Viridor i drin gwastraff gweddilliol yn y gwaith Gwastraff Ynni Parc Trident gwerth £230 miliwn yng Nghaerdydd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein prif lwyddiannau wedi cynnwys:

- Agorwyd **cyfleuster treulio anaerobig Waen** yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn swyddogol ym mis Tachwedd ac mae'n gweithredu'n llwyddiannus. Mae'r bartneriaeth gyhoeddus-breifat hon wedi cynhyrchu £7.5 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf a bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfrannu dros £109,000 o refeniw y flwyddyn am 15 mlynedd;
- Cwblhawyd **cyfleuster treulio anaerobig Bryn Pica** yn Ne Ddwyrain Cymru, a bwriedir dechrau gwasanaethau llawn i drin gwastraff bwyd ym mis Gorffennaf. Mae'r bartneriaeth gyhoeddus-breifat hon wedi cynhyrchu £8 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf a bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfrannu dros £123,000 o refeniw y flwyddyn am 13 mlynedd.

### Astudiaeth Achos – Prosiect Gwastraff Bwyd Cwm Yfory

Mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r prosiect gwerth £8 miliwn hwn yn helpu i roi sylw i fforddiadwyedd seilwaith gwastraff cynaliadwy yng Nghymru, ac yn cynorthwyo awdurdodau lleoli ddarparu digon o allu trin gwastraff i fodloni targedau osgoi tirlenwi'r UE a thargedau ailgylchu cenedlaethol statudol. Mae Prosiect Cwm Yfory yn bartneriaeth rhwng Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Llywodraeth Cymru a'r gweithredwr Biogen. Mae'r Prosiect wedi galluogi adeiladu a chomisiynu trydydd cyfleuster treulio anaerobig Cymru, o fewn Rhaglen Caffael Seilwaith Gwastraff Llywodraeth Cymru, i drin 22,500 tunnell y flwyddyn o wastraff bwyd trefol ym Mryn Pica ger Aberdâr. Mae'r buddsoddiad hwn wedi creu dros 40 o swyddi'n uniongyrchol ac amcangyfrifir y bydd yn cynhyrchu tua £10 miliwn o arbedion dros 15 mlynedd.



# 3.4 Ynni

## Trechu Tlodi Tanwydd

### Sicrhau cymaint â phosibl o adnoddau i'w buddsoddi

Ers lansiad y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, rydym wedi buddsoddi ychydig dros £74 miliwn o gyllideb graidd ein Hadran, ac wedi dyrannu £80 miliwn o gyfalaf ychwanegol yn ein Rhaglen Effeithlonrwydd Ynni. Datblygwyd y Rhaglen i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi aelwydydd ag incwm isel neu rai sydd yn y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru, helpu i drechu tlodi tanwydd, lleihau allyriadau carbon a darparu swyddi a thwf. Rydym wedi defnyddio ein cyllid hefyd i ysgogi buddsoddiad allanol o'r sector preifat drwy'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni i weithredu ochr yn ochr â rhaglen ARBED 2 ac ehangu'r rhaglen Nyth i alluogi mwy fyth o fuddsoddiad i wella effeithlonrwydd ynni yng nghartrefi Cymru.

### Creu'r effaith fwyaf bosibl drwy fuddsoddi

Rydym wedi llwyddo i ddefnyddio cyfanswm y cyllid a fu ar gael i wella dros 20,000 o gartrefi, creu dros 540 o swyddi, prentisiaethau a chyfleoedd profiad gwaith newydd a darparu dros 60,000 awr o hyfforddiant i gyflogwyr newydd a chyflogwyr sy'n bodoli eisoes. Rydym hefyd wedi gallu darparu cyngor a chymorth ynglŷn â sut i leihau biliau ynni i dros 59,000 o aelwydydd ac amcangyfrifwyd bod y gwelliannau a wnaethom wedi arbed dros £470 oddi ar filiau ynni pob aelwyd bob blwyddyn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein prif lwyddiannau'n cynnwys:

- Cwblhau pedwaredd flwyddyn y cynllun **Nyth** gan ddarparu gostyngiadau wedi'u modelu mewn allyriadau carbon gydol oes dros 660,000 $tCO2$;
- Cwblhau trydedd flwyddyn y rhaglen **Arbed 2** sydd wedi cyflawni hyd at yr uchafswm o ddychwelyd £2 i economi Cymru am bob £1 a fuddsoddwyd, yn ôl mesuriadau'r pecyn offer Gwerth Cymru;
- Creu dros 90 o swyddi, prentisiaethau a chyfleoedd profiad gwaith newydd;
- Darparu dros 20,000 awr o hyfforddiant i gyflogeion newydd a chyflogeion presennol.

## Cynhyrchu Ynni

### Sicrhau cymaint â phosibl o adnoddau i'w buddsoddi

Ers lansiad y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, rydym hefyd wedi buddsoddi dros £1 miliwn o gronfeydd cyfalaf craidd ein Hadran mewn prosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru ac wedi darparu cyllid refeniw sydd gyda'i gilydd wedi datblygu piblinell o brosiectau ar draws nifer o sectorau. Mae'r prosiectau hyn nawr yn cyrraedd y cam adeiladu ac rydym yn disgwyl gweld buddsoddiad sylweddol dros y pum mlynedd nesaf. Rydym hefyd wedi rhoi hwb i'r adnoddau sydd ar gael drwy ddyrannu £5 miliwn ychwanegol mewn Trafodiadau Ariannol yn 2015-16 i gefnogi sector ynni adnewyddadwy Cymru drwy ein Cronfa Twf Gwyrdd arloesol newydd.



## Creu'r effaith fwyaf bosibl drwy fuddsoddi

O ganlyniad i'r dulliau partneriaeth yr ydym wedi'u defnyddio i sicrhau bod cymaint â phosibl o fuddsoddiad ar gael, rydym wedi llwyddo i wneud cynnydd, drwy ddefnyddio arian o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, ers mis Mehefin 2014. Mae'r rhaglen Ynni'r Fro wedi darparu cefnogaeth sylweddol i 57 o gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol drwy'r camau datblygu sy'n gymhleth ac yn anodd i bobl nad ydynt yn ddatblygwyr proffesiynol. Mae enghreifftiau o'r prosiectau sydd wedi cael cymorth yn cynnwys Ynni Anafon Energy, Ymddiriedolaeth Penllergare a chynlluniau ynni dŵr Ynni Gwyrdd Dyffryn Crawnon. Dylai fod un ar ddeg o'r prosiectau wedi'u hadeiladu, ac yn generadu cyfanswm o 5.5MW, erbyn diwedd 2015.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym hefyd wedi gwneud y canlynol:

- gweld dros 100MW o fuddsoddiad dan arweiniad y sector preifat mewn cynlluniau ynni ar raddfa wasgaredig (hyd at 50MW);
- lansio'r gwasanaeth Cymru Effeithlon ym mis Hydref 2014, sef gwasanaeth gan Lywodraeth Cymru sy'n integreiddio darpariaethau a arferai fod ar wahân, ac yn darparu cyngor a chymorth annibynnol i bobl a sefydliadau i fuddsoddi mewn gwelliannau sy'n arbed ynni, dŵr a gwastraff;

### Astudiaeth Achos – Rhaglen Ynni'r Fro – Cynllun Ynni Dŵr Ynni Anafon Energy

Mae Rhaglen Ynni'r Fro'n darparu cyllid a chyngor i grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol i ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy. Rhagwelir y bydd yn cynhyrchu £12 miliwn o fuddsoddiad sector preifat, ac mae wedi cynorthwyo 57 o brosiectau. Un o'r prosiectau hyn yw Cynllun Ynni Dŵr Ynni Anafon Energy, sydd hefyd wedi cael cyllid gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Disgwylir y bydd yn generadu pŵer erbyn diwedd 2015.

Datblygwyd y Cynllun Ynni Dŵr hwn, sy'n costio tua £1.5 miliwn, gan Gwmni Adfywio Abergwyngregyn, a sefydlwyd yn 2002 i helpu i gynhyrchu incwm i adfywio ardal leol Abergwyngregyn yng Ngwynedd.

Mae'r cynllun wedi'i leoli yn Nyffryn Anafon uwchlaw Abergwyngregyn ac mae disgwyl iddo gynhyrchu tua 957 MWh o drydan y flwyddyn. Mae hyn yn ddigon i gyflenwi tua 230 o aelwydydd; bydd hyn yn gwrthbwyso mwy na 19,000 o dunelli o allyriadau CO2 dros 40 mlynedd gyntaf ei oes.

Rhagwelir y bydd y cynllun yn cynhyrchu cronfa budd cymunedol gwerth o leiaf £30,000 y flwyddyn am ei 15 mlynedd gyntaf. Ar ôl y cyfnod hwn, bydd yr holl ddyledion wedi'u had-dalu a bydd y gronfa budd cymunedol yn cynyddu'n sylweddol am 5 mlynedd nes i'r Tariff Cyflenwi ddod i ben. Bydd yr incwm hwn o gymorth i effeithlonrwydd ynni a seilwaith a mentrau cymdeithasol yng nghymuned Abergwyngregyn ac o'i chwmpas.



# 3.5 Tai

## Sicrhau cymaint â phosibl o adnoddau i'w buddsoddi

Ers cyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, rydym wedi dyrannu £842 miliwn drwy gyllideb graidd ein Hadran yn unol â'n blaenoriaeth o gynyddu cyflenwad tai Cymru a'r dewis sydd ar gael a helpu i gefnogi ein cymunedau a threchu tlodi drwy gyfrwng ein rhaglenni tai cymdeithasol a thai i'r farchnad.

Rydym hefyd wedi manteisio i'r eithaf ar bob cyfle i roi hwb i'r adnoddau sydd ar gael drwy gyfrwng mecanweithiau arloesol megis y Grant Cyllid Tai a Phartneriaeth Tai Cymru. Rydym hefyd wedi dyrannu cyfanswm o £340 miliwn yn ychwanegol i'r gyllideb graidd i ystod o brosiectau ers lansio'r Cynllun i helpu i wella'r cyflenwad tai a rhoi hwb i'r economi, gan gynnwys y cynllun blaenllaw gwerth £174 miliwn Cymorth i Brynu – Cymru.

## Creu'r effaith fwyaf bosibl drwy fuddsoddi

Rydym wedi sicrhau bod y buddsoddiad sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf bosibl, gan ddarparu nifer o brosiectau newydd ac arloesol, gan gynnwys y buddsoddiadau canlynol:

- dros £250 miliwn i ddatblygu **tai fforddiadwy a thai cymdeithaso**l er mwyn cyrraedd ein targed o 10,000 o dai fforddiadwy ychwanegol yng Nghymru erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn;
- dros £320 miliwn i wella stoc tai cymdeithasol a thai fforddiadwy Cymru i fodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru. **Mae dros 70% o dai cymdeithasol nawr yn bodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru** ac rydym yn gwneud cynnydd rhagorol tuag at sicrhau bod ein holl dai cymdeithasol yn bodloni'r safon hon erbyn 2020;
- £15 miliwn i'r cynllun **Tir Tai Fforddiadwy** ar y cyd â'n partneriaid cyflenwi sy'n Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae'r cynllun hwn yn archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o ddefnyddio cyllid i ddatblygu cynlluniau tai fforddiadwy i helpu i unioni'r diffyg tai fforddiadwy ledled Cymru;
- £30 miliwn dros 4 mlynedd yn ein cynllun **Troi Tai'n Gartrefi**, i helpu i ailddechrau defnyddio'r 24,000 o gartrefi gwag yng Nghymru;
- buddsoddi £15 miliwn yn y **Gronfa Gofal Canolraddo**l yn 2014-15 i archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.



## Astudiaeth Achos – Grant Tai Cymdeithasol

### Red Bank, Y Trallwng, Powys



Ni fyddai'r buddsoddiad o £6 miliwn hwn i adeiladu 45 o gartrefi newydd wedi bod yn bosibl heb y cyllid sydd ar gael drwy Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae'r grant hwn yn darparu cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer tai fforddiadwy. Yn ogystal â chynyddu cyflenwad tai, mae'r buddsoddiad hwn wedi darparu symbyliad parhaus i'r economi drwy gefnogi'r diwydiant adeiladu a'r gadwyn gyflenwi. Mae ei gynlluniau wedi darparu swyddi a phrentisiaethau i'r ardal leol, yn ogystal ag amryw o fuddiannau cymunedol.

Prynwyd y tir yn Burgess Road, a elwir yn ffurfiol yn Red Bank, gan y Cyngor Tref a oedd yn gweithredu fel Ymddiriedolwr i Ymddiriedolaeth Tir Burgess. Datblygwyd y cynllun gan Gymdeithas Dai Canolbarth Cymru mewn partneriaeth â chwmni Adeiladwyr S J Roberts a Chyngor Sir Powys. Dechreuodd y gwaith ar y safle ym mis Chwefror 2012 ac fe'i cwblhawyd ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r cynllun yn cynnwys 45 o unedau, ac ariannwyd 22 o'r rhain drwy gyfrwng Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer rhentu cymdeithasol. Ariannwyd y 23 chartref arall yn breifat drwy Gymdeithas Dai Canolbarth Cymru. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid Grant Tai Cymdeithasol o £1.7 miliwn tuag at gost o £2.9 miliwn; talwyd y gweddill â chyllid preifat ar gyfer y 22 o dai fforddiadwy (rhentu cymdeithasol).



## 3.6 Adfywio

### Sicrhau cymaint â phosibl o adnoddau i'w buddsoddi

Mae ein buddsoddiad mewn adfywio'n cynnwys mwy na dim ond y £251 miliwn mewn raglenni adfywio penodol, megis Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a'r saith Ardal Adfywio Strategol, yr ydym wedi'i ddyrannu ers cyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru; mae hefyd yn ffurfio rhan o raglenni seilwaith ehangach ar draws sectorau, megis amddiffynfeydd llifogydd ac arfordiroedd.

Rydym wedi rhoi hwb i'r adnoddau sydd ar gael drwy ysgogi cyllid Strwythurol yr UE, gan ddarparu'r catalydd i gyflawni gwell canlyniadau i gymunedau, trechu tlodi a hybu twf a swyddi. Hyd yn hyn, rydym wedi gallu cael dros £36 miliwn o gyllid Ewropeaidd i gyfateb i fuddsoddiad Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei ddefnyddio i wneud gwaith adfywio ledled Cymru a gwneud nifer o gymunedau a threfi'n lleoedd gwell i fyw, gweithio a buddsoddi ynddynt.

### Creu'r effaith fwyaf bosibl drwy fuddsoddi

Ers yr adroddiad blynyddol diwethaf, mae ein prif lwyddiannau'n cynnwys:

- cwblhau blwyddyn gyfan gyntaf ein strategaeth adfywio newydd gwerth £100 miliwn ar gyfer Cymru, **Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.** Dros dair blynedd y rhaglen, bydd Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn cynorthwyo dros 3,000 o bobl i gael gwaith ac yn darparu dros 3,000 o dai fforddiadwy a thai i'r farchnad. Bydd y buddsoddiad hwn yn darparu hwb mawr ei angen i'n cymunedau trefol ac arfordirol;
- cwblhau blwyddyn olaf ein buddsoddiad o dros £250 miliwn mewn **Saith Ardal Adfywio Strategol ledled Cymru**. Mae'r rhaglen hon wedi cyfrannu'n sylweddol at nodau Llywodraeth Cymru o dwf a swyddi, trechu tlodi ac adfywio ein canol trefi a chanolfannau cymunedol;
- lansio ein **Cronfa Benthyciadau Canol Trefi** gwerth £10 miliwn. Bydd y gronfa hon yn defnyddio dulliau ariannu arloesol i adfywio adeiladau allweddol yn ein canol trefi a'n canolfannau cymunedol ac yn gwneud cyfraniad arwyddocaol pellach at agendâu'r economi a threchu tlodi.





## Astudiaeth Achos – Harbwr y Foryd, y Rhyl

Mae Harbwr y Foryd yn y Rhyl yn brosiect adfywio gwerth £10.5 miliwn ac mae wedi'i leoli ar foryd Afon Clwyd ar y ffordd i mewn i'r Rhyl o'r gorllewin ar Arfordir Gogledd Cymru. Mae ardal yr harbwr ar y ffin rhwng ardaloedd gweinyddol Conwy a Sir Ddinbych ac ystyrir bod y prosiect yn gatalydd i adfywio'r Rhyl, drwy ailddatblygu'r ardal forol at safon uchel.

Mae Pont y Ddraig, sydd newydd gael ei hailenwi, yn bont eiconig i gerddwyr a beicwyr sy'n croesi Aber Afon Clwyd i gysylltu cymunedau'r Rhyl a Bae Cinmel, ac mae'n darparu cyswllt olaf 15 milltir o feicio heb draffig ar draws Sir Ddinbych a Chonwy.

Ariannwyd prosiect Pont y Ddraig gan Gyngor Sir Ddinbych, Sustrans – drwy gyfrwng grant Cronfa'r Loteri Fawr, Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Dwristiaeth Fferm Wynt Alltraeth Gwynt y Môr RWE npower renewables.

Mae'r datblygiad mawr yn yr harbwr hefyd yn cynnwys darparu wal newydd estynedig i'r cei ynghyd â chyfleusterau ysgraff i greu man diogel i gychod, sgwâr cyhoeddus ac adeilad ar ochr y cei i greu canolfan i'r harbwr, y twyni o'i gwmpas a'r traethau. Mae'r adeilad ar ochr y cei'n cynnwys swyddfa Harbwrfeistr, yn ogystal â dwy uned i'w prydlesu – caffi/bwyty, a siop llogi beiciau sydd ill dwy'n cael eu cynnal gan Co-Options, sef Menter Gymdeithasol leol sy'n darparu cyfleoedd i bobl ag anawsterau dysgu.



# 3.7 Addysg

## Sicrhau cymaint â phosibl o adnoddau i'w buddsoddi

Mae gwella ansawdd ein hystad addysg ledled Cymru wedi golygu rhaglen sylweddol o waith i ddarparu amgylcheddau dysgu i blant a phobl ifanc yng Nghymru a fydd yn golygu y gellir rhoi strategaethau ar waith i wella ysgolion a gwella canlyniadau addysgol. Ers inni gyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn 2012, rydym wedi buddsoddi £441 miliwn drwy ein cyllideb graidd tuag at gyflawni'r targed cyffredinol o ailwampio neu ailadeiladu 150 o ysgolion dros oes y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Rydym hefyd wedi cymryd camau eraill i gynorthwyo ein blaenoriaeth fuddsoddi o wella ansawdd yr ystad addysgol a helpu i gyflymu'r broses o ddarparu Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan gynnwys £128 miliwn o ddyraniadau cyllid ychwanegol, y Fenter Benthyca Llywodraeth Leol gwerth £170 miliwn i ysgolion a'r model nad yw'n dosbarthu elw newydd gwerth £500 miliwn.


## Creu'r effaith fwyaf bosibl drwy fuddsoddi

O ganlyniad i'r buddsoddiad yn Ysgolion yr 21ain Ganrif a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a'r sector preifat hyd yn hyn, mae cymeradwyaeth wedi'i chael ar gyfer 57 o Achosion Cyfiawnhau Busnes/ Achosion Busnes Llawn, mae gwaith adeiladu wedi'i ddechrau ar 38 o brosiectau ac mae 13 o gynlluniau wedi'u cwblhau. Mae ein llwyddiannau'n cynnwys cynlluniau i adeiladu ysgol uwchradd 11-19 newydd ar safle'r Ynys yn Aberdâr, gyda chyfleusterau cymunedol a hamdden wedi'u hariannu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Canolfan Ddysgu Penarth a chynllun yn Llandysul, Ceredigion, i ddarparu'r ysgol cyfrwng Cymraeg 3-19 bwrpasol gyntaf yng Nghymru.

Ers yr adroddiad blynyddol diwethaf, mae ein prif lwyddiannau'n cynnwys:–

- Prosiect gwerth £40.7 miliwn, wedi'i gefnogi gan bron i £20 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru, i adeiladu **ysgol 3-16 newydd i hyd at 1,500 o blant ym Mae Baglan** i gymryd lle tair ysgol 11-16 ac un ysgol 3-11. Bydd y cynnig yn ategu'r cynlluniau sy'n bodoli i adfywio canol tref Port Talbot.
- **Ad-drefnu Ysgolion yn Ardaloedd y Rhondda a Thonyrefail** – prosiect gwerth £75 miliwn, gyda chymorth £37.5 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru. Mae'r cynnig strategol hwn yn cynnwys creu economi gymysg o ysgolion 3-11, ysgolion 3-16 ac ysgol 3-19 yn ardal y Rhondda yn Rhondda Cynon Taf.
- **Ysgol Arbennig Dwyfor (Hafod Lon), Gwynedd** – prosiect gwerth £13 miliwn, gyda chymorth £6.5 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru, i adeiladu canolfan AAA ddwyieithog/ cyfrwng Cymraeg newydd â 100 o leoedd gyda chyfleuster preswyl/seibiant byr â chwe gwely ar gyfer ardal Meirion/Dwyfor yng Ngwynedd. Mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau a bwriedir ei hagor yn 2016.
- **Campws Dysgu Cymunedol yn Nhreffynnon a Chanolfan Addysg Ôl-16 yng Nghei Connah** – mae prosiect gwerth £45.6 miliwn, wedi'i gefnogi gan £22.8 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru, wedi'i gymeradwyo. Bydd yn darparu ysgol 3-16 newydd â 980 o leoedd yn Nhreffynnon, a chyfleuster ôl-16 â 600 o leoedd yng Nghei Connah, gyda chymorth Coleg Glannau Dyfrdwy.





**Astudiaeth Achos – Cymuned Ddysgu Penarth, Bro Morgannwg**

- Mae adeiladu Cymuned Ddysgu newydd Penarth yn rhan o raglen fuddsoddi leol gwerth £47 miliwn sydd wedi cael cymorth £33.3 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru.
- Mae'r ysgol newydd yn arddangos sut mae awdurdod lleol Bro Morgannwg yn darparu addysg mewn modd arloesol, drwy leoli ysgol gyfun brif ffrwd ar yr un safle ag ysgol sy'n darparu addysg a gofal i ddisgyblion â sbectrwm eang o anghenion dysgu.
- Mae prosiect Cymuned Ddysgu Penarth yn darparu cyfleusterau allweddol i'r gymuned megis pwll hydrotherapi, ystafelloedd ffisiotherapi a mannau arbenigol eraill, a ddefnyddir gan deuluoedd a gofalwyr nad ydynt yn gallu defnyddio'r mathau hyn o gyfleusterau drwy'r dydd ar hyn o bryd. Mae hefyd yn darparu cyfleuster seibiant ar gyfer plant ag anghenion gofal a goruchwyliaeth parhaus.
- Wrth i'r ysgolion ddod at ei gilydd, roedd yn anochel bod synergeddau wedi'u datblygu, gan adeiladu ar y perthnasoedd sy'n bodoli rhwng yr ysgolion a'u gwella. Mae'r prosiect yn unigryw gan ei fod yn cyfuno addysg prif ffrwd, addysg anghenion arbennig a gwasanaethau cymunedol iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae'r buddsoddiad seilwaith hwn hefyd wedi darparu llawer o fuddiannau lleol. Bu 184 o bobl yn gweithio ar y prosiect ar ôl bod yn ddi-waith cyn hynny, ynghyd â 83 o hyfforddeion a phrentisiaid. Cyflogwyd cyfanswm o 1,422 o bobl o radiws 25 milltir o gwmpas y prosiect.
- Yn ddiweddar, enillodd Cymuned Ddysgu Penarth wobrau categorïau Prosiect y Flwyddyn ac Integreiddio a Chydweithio yn y Gwobrau Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru 2015. Disgrifiwyd y prosiect fel amgylchedd dysgu eithriadol â dyluniad arloesol a chynhwysol, sy'n darparu buddiannau parhaus a chymdeithasol i'r gymuned leol ac yn ehangach.



## 3.8 Iechyd

### Sicrhau cymaint â phosibl o adnoddau i'w buddsoddi

Ers cyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, rydym wedi buddsoddi dros £864 miliwn o gyllid cyfalaf yng ngwasanaeth iechyd Cymru ar gyfer seilwaith newydd, i brynu a disodli cyfarpar ac i gynnal a chadw ystad bresennol y GIG. Yn ei dro, mae hyn yn ein cynorthwyo i ddarparu gofal modern, effeithiol o safon uchel i gleifion. Mae **Law yn Llaw at Iechyd** yn disgrifio ein gweledigaeth o wasanaethau iechyd o'r radd flaenaf yng Nghymru y gellir eu darparu mewn modd cynaliadwy a hirdymor.

O ganlyniad, mae gwelliannau parhaus wedi'u gwneud i seilwaith y GIG a chamau mawr wedi'u cymryd o ran cynllunio strategol gan ddatblygu, adolygu a chyflawni Cynlluniau Integredig Tymor Canolig.

Rydym hefyd wedi darparu hwb cyfalaf o dros £153 miliwn mewn dyraniadau ychwanegol i gefnogi ein blaenoriaeth fuddsoddi o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon a darbodus. Fel rhan o'n pecyn cyllid arloesol, rydym hefyd yn gwneud cynnydd â chynllun nad yw'n dosbarthu elw i ddatblygu cyfleusterau gofal canser annibynnol a fydd yn gwella gwaith Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

### Creu'r effaith fwyaf bosibl drwy fuddsoddi

Drwy'r cyfuniad o gyllid craidd a ddarparwyd drwy gyfrwng Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan a dyraniadau cyfalaf ychwanegol, rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein GIG i wneud yn siŵr bod y dechnoleg ddiweddaraf ar gael i gleifion a bod ein hysbytai a'n cyfleusterau meddygol yn cael eu cynnal a'u cadw.


Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein prif lwyddiannau wedi cynnwys:

- **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru** – Canolfannau Adnoddau Ambiwlans a Depos Ymbaratoi newydd. Agorwyd prosiect cyntaf y rhaglen 7 mlynedd hon, Depo Ymbaratoi gwerth £3.7 miliwn yn Dobshill yn Sir y Fflint, ym mis Mai 2012 a dechreuodd gwaith adeiladu'r ail brosiect ym mis Medi 2014, sef cynllun gwerth £7.9 miliwn ar y cyd â'r Gwasanaeth Tân yn Wrecsam;
- **Cwadrant Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd** a agorodd ym mis Mehefin 2014. Mae'r buddsoddiad hwn yn rhan o raglen dreigl gwerth £90 miliwn o foderneiddio ac ailwampio'r ystad ysbytai i gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy;
- Cwblhau **Uned Diogelwch Isel ABM Glanrhyd**. Mae'r buddsoddiad £14.3 miliwn hwn yn darparu llety pwrpasol i gleifion â salwch meddwl ag angen gofal "diogelwch isel";
- Cynnydd sylweddol wrth ddarparu'r **Cyfleuster Iechyd Meddwl Acíwt i Oedolion Llandochau** gwerth £88 miliwn. Bydd y cyfleuster yn darparu llety pwrpasol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl acíwt i unigolion ag angen therapi dibyniaeth, niwroseiciatreg, gofal dwys, gwasanaethau gwella â chymorth a gwasanaethau therapi a chefnogaeth cysylltiedig;
- **Gweledigaeth Iechyd Abertawe Cam 1B Prif Adeilad ac 1B Cam 2 llety clinigol.**



Bydd y buddsoddiad gwerth £60 miliwn hwn yn ailddatblygu prif fynedfa Ysbyty Treforys, yn gwella llety clinigol gwasanaethau cleifion allanol, dialysis arennol, endosgopeg a'r genau a'r wyneb ac yn darparu canolfan addysg newydd;

- Cyhoeddwyd £32.9 miliwn ychwanegol o ddyraniadau cyfalaf yn 2014 gan gynnwys £3 miliwn i gynorthwyo gwasanaethau newyddenedigol Hywel Dda, £6.9 miliwn i gynorthwyo cyflwyniad cam cyntaf y datrysiad gwybodaeth Gofal Cymunedol a £3.5 miliwn ar gyfer cyfarpar diagnostig CT ac MRI.



## Astudiaeth Achos – Ysbyty Plant Cymru Arch Noa

Mae'r buddsoddiad gwerth £64 miliwn hwn yn galluogi Ysbyty Plant Cymru i ddod yn ganolfan ragoriaeth gydnabyddedig ym maes darparu gwasanaethau iechyd arbenigol i blant yng Nghymru a thu hwnt. Mae'n darparu cyfleusterau pwrpasol i gynorthwyo gwasanaethau gofal llawfeddygol, diagnostig, cleifion allanol a chritigol i blant gan gynnwys:-

- Cyfres o 6 theatr lawfeddygaeth yn arbenigo fel a ganlyn: Trawma ac Orthopedig; Deintyddol ac Achosion Dydd; ymroddedig i weithgarwch brys; Llawfeddygaeth Gyffredinol; Offthalmoleg a Chlust Trwyn a Gwddf; a chragen chweched theatr i sicrhau gallu i ehangu yn y dyfodol.
- Gwasanaeth Gofal Critigol Pediatrig ag 16 o welyau gofal dwys pediatrig sy'n gallu cynnal y gwasanaeth adalw pediatrig.
- Llety cleifion mewnol gan gynnwys 37 gwely llawfeddygol a 14 gwely dros nos/triniaeth ddydd
- Uned Asesu Plant o 10 gwely ac Uned Ymchwiliadau Clinigol o 6 gwely.
- Llety cleifion mewnol gan gynnwys 8 gwely Arennol/Cardiaidd.
- Adran Cleifion Allanol Bediatrig bwrpasol i alluogi integreiddio clinigau cleifion allanol arbenigol a gwella gwaith Tîm Amlddisgyblaethol.
- Adran Radioleg ar gyfer delweddu, uwchsain, MRI a fflworosgopeg
- Cyfleusterau academaidd ac addysgu pwrpasol ar gyfer gwasanaethau iechyd plant.
- Llety i rieni a gwell cyfleusterau i rieni ar wardiau cleifion mewnol gyda chyfleusterau cymorth ychwanegol i deuluoedd gan gynnwys cynghori a chyfleusterau Aml-ffydd.

Mae ail gam adeiladu'r ysbyty wedi'i integreiddio'n llawn â'r gwasanaethau hynny a sefydlwyd ar gam un, ar gampws Ysbyty Athrofaol Cymru ac mae wedi'i ategu gan dros £12 miliwn o roddion elusennol i brynu cyfarpar meddygol.







Am ragor o wybodaeth cysylltwch
ag Is-adran Cyllidebu Strategol
Llywodraeth Cymru drwy

wiipmailbox@wales.gsi.gov.uk

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
**Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol**
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
**Europe & Wales: Investing in your future**
European Regional Development Fund

ISBN digidol 978-1-4734-3370-0
OGL
© Hawlfraint y Goron 2015
WG25435